

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 39 Medi 28, 2023 50c.

‘GALLANT ACT’

Dewch ’nôl mewn amser, i ddechrau Mehefin 1921, i *Local News* y *Camarthen Journal*. Yno, cofnodwyd hanes am Rowland Hughes; y Parchedig Rowland Hughes, un o weinidogion eglwys Minny Street, Caerdydd. Maddeued y Saesneg:


Gallant Act, – The Rev. Rowland Hughes, BD, pastor of Minny Street Welsh Congregational Church, Cardiff, who preached at the anniversary services at Lammas Street Chapel on Sunday, performed a gallant act at the Cardiff GWR Station on Saturday when waiting on the no. 3 platform for a train to convey him to Carmarthen. In the bustle of the moment a lady fell off the platform in front of an approaching train. Mr Hughes who was standing close by, immediately jumped to her assistance, and with much promptitude lifted her body on to the platform. The waiting passengers held their breath as Mr Hughes clambered from his perilous position, and ready hands were outstretched to pull the heroic minister out of danger. They succeeded in doing so just as the engine crashed by. Mr Hughes, who was not known to the passengers on the platform



hastily and unostentatiously took his seat in the train and departed before his identity became known.

Gweinidog yn dod i'r adwy

Gwych o stori, gwych o gofnod. Ni fu erioed fwy o angen am gallant acts. Yr ateb i hyn o fyd, yw amrywiol a chyson *gallant acts*. Heb *gallant acts*, wel, man a man i'r cŵn a'r brain ddod draw. Yn union oherwydd bod y byd fel y mae, byddwn barod ein cymorth, beth bynnag bo'r



sefyllfa neu'r gofyn, heb anghofio un tro ein bod wrth wneud, yn plygu i ewyllys ein Harglwydd Iesu. I'r gwaith o gynorthwyo pobl y rhoes Iesu ei fryd, ei amser a'i fywyd, ‘gan fyned oddi amgylch gan wneuthur daioni’ (Actau 10:38); lleddfu gofidiau, esmwytháu beichiau a chodi'r gwan i fyny: *gallant acts* bo un.

Yn lleol, a ledled byd, Corff Crist yw'r Eglwys, felly nid dweud y drefn wrth y byd yw ei phriod waith; nid concro'r byd, na'i gyfundrefnu, ond cynnig cymorth iddo: fel unigolion ac fel eglwys mentrwn ambell *gallant act*: maddeuant, trugaredd, tynerwch, tosturi, cariad, caredigrwydd.

A all ein *gallant acts* wneud gwahaniaeth felly? Gallant, heb os. Yn y *gallant acts* hyn mae'r egnïon sy'n creu a chynnal gobaith. Dengys ein *gallant acts* mai Cristnogion-oddifri ydym, mai eglwys-di-rigamarôl ydym. Dengys ein *gallant acts* fod – ynghanol yr holl ddrygioni – bobl gyffredin yn mynnu lledaenu daioni anghyffredin. Heuwn gariad mewn tir o gerrig, gan ffrwythloni'r diffeithdir â'n ffydd. Peidiwn ag amau, na chaniatáu

Pa ddarn o'r corff y gwneir mwyaf o ddefnydd ohono yng ngwasanaeth yr Arglwydd yng Nghymru?

Y darn ti'n eistedd arno!

'Fab dyn, saf ar dy draed, ac fe siaradaf â thi.'

(Eseciel 2:1)

i eraill amau effaith gyrhaeddbell bob *gallant act*.

Byddwn yn bobl gynorthwyol; byddwn yn eglwys sydd yn fodlon a pharod i osod ei hysgwydd o dan bwysau gwaith Duw. Dyma ein cenhadaeth; dyma'r unig genhadaeth synhwyrol heddiw – nid adrodd credoau, a chyfarth dogmâu ond cenhadu; ti a minnau'n genhadon – ti a fi a ninnau, trwy gyfrwng ein *gallant acts* yn ymgawdoliad o Dduw – yn y cylch hwnnw sydd o'n cwmpas yn troi.

Quiche yw pob peth arall!

Cofiw'n gofio felly mai pobl y *gallant acts* sydd yn dod â chymorth cariadlawn, a chariad cynorthwyol Duw yng Nghrist o fewn cyrraedd pobl.

Bu Mam, yn ddiweddar yn sôn am o un o hoff ymadroddion fy nhad-cu, pan oedd yntau yn ei nerth a'i iechyd: 'Bwrw mewn i'r bara menyn!' Nid oedd pryd o fwyd yn bryd o fwyd yn Lone Road, Clydach heb lond plât o fara menyn ar y bwrdd. 'Bwrw mewn i'r bara menyn' yw mynd i'r afael â'r hyn sydd bwysig, yn anhepgor. Gellid cael lot o ddanteithion ar fwrdd ein bywyd beunyddiol, ond heb fara menyn, mae'r bwrdd yn wag. Bara menyn ein ffydd yw ymgawdoli cariad Duw yn ein hymwneud â'n gilydd – ein credo mewn cymwynas, ein cyffes mewn caredigrwydd – *gallant acts* – bwrw mewn i'r bara menyn! Quiche yw pob peth arall!

Boed i bawb ohonom fod, ein hunain, yn ymgawdoliad o Dduw.

A tân gobaith yn gwibio
I d'w'llwch ing gyda llewyrch angel
Nes goleuo nos y galon isel.

'Yr Haf' R. Williams Parry 1884–1956
Yr Haf a Cherddi Eraill,
Gwasg y Bala, 1924

Ond, Rowland Hughes ddylai gael y gair olaf: '... gweddiwn oll am i'r Arglwydd, wneuthur yr eglwys yn feithrinfa i bob awyddfryd sanctaidd.'

Owain Llŷr

MYFYRDOD O'R BEIBL

Y Beibl a'i bobl (2): Abraham

Cymeriad pwysig arall yn stori fawr y Beibl yw Abraham. Mae llawer o lyfr Genesis yn sôn am ei hanes (Genesis 12–25).

Ond pam fod Abraham yn gymeriad mor allweddol i stori'r Beibl? Wel, fel yn achos Noa, nid yw Abraham yn bwysig oherwydd unrhyw rinwedd arbennig sy'n perthyn iddo ef (er bod Abraham yn ddyn o ffydd, fel Noa, roedd hefyd yn gallu bod yn ddyn ffôl). Yn hytrach, mae Abraham yn bwysig oherwydd beth mae Duw yn ei wneud iddo a thrwyddo. Yn Genesis 12, mae Duw yn gwneud addewid anhygoel i Abraham.

'Dos o'th wlad ...'

Mae'r addewid rhyfeddol hwn i'w weld yn Genesis 12:1–3: 'Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti. Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di a mawrygaf dy enw a byddi'n fendith. Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio, a mellithiaf y rhai sy'n dy felltithio, ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear.' Cyn i Dduw wneud yr addewid hwn iddo, dyn cyffredin o Ur y Caldeaid oedd Abraham (dinas yn ne Irac heddiw). Cyn i Dduw siarad gydag ef, nid oedd Abraham yn adnabod Duw ac roedd mwy na thebyg yn addoli duwiau paganaidd gwlad Ur. Cyn i Dduw ymyrryd â'i fywyd, roedd Abraham yn y tywyllwch: roedd ar goll ac ar gyfeiliorn. Nid oedd yn adnabod ei Greawdwr ac nid oedd ganddo berthynas â Duw.

Newid popeth

Ond pan mae Abraham yn byw mewn dinas o'r enw Haran, mae Duw yn

ymyrryd â'i fywyd gan newid popeth. Mae'n siarad gyda fe yn uniongyrchol er mwyn iddo ddod i'w adnabod. Er mai dyn cyffredin oedd Abraham, mae Duw yn ei ddewis gan addo bendithio'r byd i gyd trwyddo ef a'i ddisgynyddion.

Tri pheth

Mae Duw yn addo tri pheth allweddol i Abraham: gwlad, pobl a bendith. Mewn geiriau eraill, mae'n addo gwlad lle bydd pobl Dduw yn byw o dan fendith Duw. Bu farw Abraham cyn i'r addewid hwn gael ei gyflawni. Wrth gwrs, gwiredddwyd yr addewid yn rhannol yn hanes Israel pan roedd pobl Dduw yn byw o dan ei fendith yng ngwlad Israel. Ond ni chyflawnwyd yr addewid yn llawn bryd hynny.

Yn y pen draw, cafodd Israel ei choncuro gan Asyria a Babilon a chafodd ei phobl eu halltuduo yn bell o'u gwlad a'u hamddifadu o fendith arbennig Duw. Er hynny, yn Iesu Grist, mae Duw yn cyflawni ei addewid i Abraham yn llwyr: yr addewid am wlad, pobl a bendith. Trwy Iesu, mae Duw wedi gwneud ffordd i ni fod yn bobl iddo er ein pechod a'n gwrthryfel. Bu farw Iesu ar y groes fel ein bod yn gallu profi maddeuant Duw a bod yn rhan o'i eglwys (yn wir, yr eglwys yw ei bobl).

Yn awr, gan ein bod yn bobl iddo trwy ffydd yn Iesu, rydym yn gallu mwynhau bendith Duw. Yn wir, nid oes gelyniaeth rhyngom ni a Duw rhagor ond gallwn alw Duw yn 'dad' gan ei fod wedi'n mabwysiadu'n rhan o'i deulu. Mae pob Cristion eisoes yn bobl i Dduw sy'n profi

bendith Duw ond rhyw ddydd byddwn ni hefyd yn cael byw yng ngwlad Duw. Na, nid gwlad ddaearyddol gyda ffiniau gwleidyddol yw hon ond y Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd mae Iesu'n mynd i'w sefydlu pan ddaw'n ôl. Bryd hynny, byddwn ni'n bobl i Dduw fydd yn byw yng ngwlad Duw gan brofi bendith Duw, yn union fel yr addawodd Duw i Abraham.

Duw yn cadw at ei air

Yr hyn mae hanes Abraham yn ei ddangos ydy fod Duw wastad yn cadw at ei air. Er bod Abraham yn byw 2,000 o flynyddoedd cyn Crist, mae Duw wedi cadw ei addewid. Trwy'r Arglwydd Iesu – disgynnydd i Abraham – mae Duw wedi bendithio 'holl dylwythau'r ddaear' (Genesis 12:3). Mae'r ffaith fod Duw yn cadw at ei air trwy'r adeg yn wirionedd pwysig i'w gofio. Falle ein bod ni'n mynd trwy amser caled ar hyn o bryd. Falle ein bod ni'n amau Duw a'i addewidion; yn cwestiynu ei ddaioni a'i barodrwydd i ateb ein gweddïau.

Cysur

Heb os, mae hanes Abraham yn gysur oherwydd mae'n dangos yn glir fod Duw yn gwbl ddbynadwy a'i fod wastad yn cadw at ei air a'i addewidion. Felly, beth bynnag yr ydym yn ei wynebu mewn bywyd, gallwn ymddiried ynddo a dibynnu arno.

Dy hen addewid rasol
a gadwodd rif y gwllith
o ddynion wedi eu colli
a gân amdani byth;
er cael eu mynych glwyfo
gan bechod is y nen
iacheir eu clwyfau mawrion
â dail y bywiol bren.

Morgan Rhys, 1716–79

Gwilym Tudur



Mae ffydd yn Nuw yn debyg i dorth o fara. Oes, mae gennym dafell, tafell go helaeth o'r gwir efallai, ond nid ni sydd piau'r dorth yn gyfan.



Yr Adran Gydenwadol

Wythnos Ryngwladol o Weithredu dros Heddwch yn Wcráin, 30 Medi–8 Hydref



Cymdeithas y Cymod
The Fellowship of Reconciliation in Wales

Nid yw heddwch iawn yn bosibl nes i ni beidio annog tywallt gwaed pobl Wcráin a Rwsia drwy anfon arfau i Wcráin. Daw heddwch drwy gadoediad, diplomyddiaeth a thrafodaethau.

Mae Cymdeithas y Cymod yn apelio ar eglwysi, Cristnogion, pobl o bob ffydd a rhai heb ffydd yng Nghymru i ddarllen Datganiad grymus Vienna yn dilyn yr Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcráin a gynhaliwyd ym Mehefin 2023, a gweithredu arno. Yng ngeiriau'r Datganiad: 'Credwn yn gryf fod rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth ac nad oes datrysiad milwrol i'r argyfwng presennol.'

Dydd Sadwrn, 30 Medi, am 3.30 o'r gloch gwahoddwn y cyhoedd i ymgynnull o flaen Siop Awen Meirion ar Stryd Fawr y Bala i nodi dechrau Wythnos Ryngwladol o Weithredu (30 Medi–8 Hydref) ac i alw am gadoediad a thrafodaethau heddwch ar unwaith i ddwyn y rhyfel i ben.

Bydd y weithred hon o dystiolaeth yn dilyn [encil](#) ar y cyd rhwng Cristnogaeth 21 a Chymdeithas y Cymod fydd yn cael ei gynnal yn Eglwys Crist, y Bala. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dysgu sut mae gwreiddiau'r ddau fudiad yn ysbrydoli ein llwybrau i'r dyfodol ddod i'r encil.

Mae trefi eraill ledled Cymru hefyd yn trefnu digwyddiadau i nodi'r Wythnos Ryngwladol o Weithredu ac i alw am ddiwedd i'r rhyfel yn Wcráin. Bydd Côr Gobaith yn canu ar strydoedd Aberystwyth, a bydd eglwysi a grwpiau cymunedol yn trafod ac yn gweithredu ar Ddatganiad Vienna sydd i'w weld ar y dde ac ar wefan Cymdeithas y Cymod. Mae taflenni ar gael i'w rhannu.

Mae adnoddau ar gyfer addoli a thrafodaeth ar gael i annog myfyrdod meddylgar a galwad i weithredu drwy Gymdeithas y Cymod. Mae gwylnos Zoom bob nos Wener am 7.30 o'r gloch yn gyfle i ymuno efo pobl ar draws y byd i alw am heddwch yn Wcráin. Cawn ein herio i wneud y cysylltiad sydd rhwng y paratoi at ryfel, y fasnach arfau a her newid hinsawdd a dinistrio'r amgylchedd naturiol.

Am fwy o wybodaeth, ebostiwch cymdeithascymod@gmail.com.

Awel Irene

Datganiad o'r Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcráin

Heddwch drwyddulliau heddychlon. Cadoediad a thrafodaethau rŵan!

Rydym ni, drefnwyr yr Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcráin, yn galw ar arweinwyr pob gwlad i weithredu i gefnogi cadoediad a thrafodaethau ar unwaith i ddod â'r rhyfel yn Wcráin i ben.

Rydym yn glymblaid eang ac amrywiol o ran gwleidyddiaeth ac yn cynrychioli mudiadau heddwch a chymdeithas ddinesig, gan gynnwys pobl ffydd mewn sawl gwlad. Rydym yn gwbl unedig yn ein cred bod rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth ac nad oes unrhyw ddatrysiad milwrol i'r argyfwng presennol.

Rydym wedi ein dychryn a'n tristáu gan y rhyfel. Mae cannoedd o filoedd wedi eu lladd a'u hanafu, a miliynau wedi eu dadleoli ac yn dioddef trawma. Mae dinasoedd a phentrefi ar draws Wcráin a'r amgylchedd naturiol wedi cael eu chwalu.

Gall llawer mwy o farwolaethau a dioddefaint ddigwydd petai'r gwrthdaro'n gwaethygu i ddefnyddio arfau niwclear, risg sy'n uwch heddiw nag ar unrhyw gyfnod ers argyfwng taflegrau Ciwba.

Rydym yn condemnio goresgyniad anghyfreithlon Rwsia o Wcráin. Nid yw'r sefydliadau a grëwyd i sicrhau heddwch a diogelwch yn Ewrop wedi gweithio, ac mae methiant diplomyddiaeth wedi arwain at ryfel. Mae angen brys am ddiplomyddiaeth rŵan i ddod â'r rhyfel i ben cyn iddo ddinistrio Wcráin a bygwth y ddynoliaeth.

Rhaid i'r llwybr at heddwch gael ei sefydlu ar egwyddorion diogelwch cyffredin, parch at hawliau dynol rhyngwladol a'r hawl i bob cymuned wneud ei phenderfyniad ei hun. Rydym yn cefnogi pob trafodaeth sy'n sefyll dros resymeg heddwch yn hytrach nag afresymeg rhyfel.

Rydym yn cadarnhau ein cefnogaeth i drigolion Wcráin sy'n amddiffyn eu hawliau. Rydym yn ymrwymo ein hunain i gryfhau'r ddeialog efo'r rhai yn Rwsia a Belarws sy'n rhoi eu bywydau dan fygythiad drwy wrthsefyll rhyfel ac amddiffyn democratiaeth.

Galwn ar ddinasyddion pob gwlad i ymuno â ni mewn Wythnos o Weithredu Rhyngwladol (Sadwrn, 30 Medi–Sul, 8 Hydref) gan alw am gadoediad a thrafodaethau heddwch ar unwaith i ddod â'r rhyfel hwn i ben.

Vienna, 11 Mehefin 2023

'Rhaid i ni i gyd wneud ein rhan, er mwyn i ni fod yn foddion i greu heddwch.' (Albert Einstein)



Llun: <https://unsplash.com/photos/80HCTfLlSc>

Bendith y saithdegau

Bu'r flwyddyn 1973, hanner can mlynedd union yn ôl i eleni, yn un nodedig yn hanes diweddar Cristnogaeth yng Nghymru oherwydd y cynyrfiadau ysbrydol a brofwyd yn ystod y flwyddyn honno mewn llawer man.

Mewn ffilm o'r enw 73 a gynhyrchwyd gan y Parch. Gwyn Rhydderch ac a lansiwyd ym Mhabell Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, olrheindir 'hanes gwaith Duw ymhlith yr ifanc yn Llŷn ac Eifionydd ym 1973'. Gellir gwyllo'r ffilm honno ar sianel YouTube Eglwys Bresbyteriaidd Cymru: <https://youtu.be/eVEVPYGojao>.

Ond roedd yn gyfnod o gynyrfiadau ysbrydol mewn sawl man arall, nid lleiaf yng ngholegau Cymru, a'r bwriad yw cynnal cynhadledd undydd ar 21 Hydref 2023 ar y thema 'Bendith y Saithdegau' a fydd yn canolbwyntio'n arbennig ar yr hyn a ddigwyddodd yng Ngholegau Prifysgol Aberystwyth a Bangor, gan osod hynny ar gefndir ehangach y 1970au yng Nghymru a'r gwaddol heddiw.

Cynhelir y gynhadledd yn adeilad Eglwys Efengylaidd y Drenewydd (SY16 1HL) rhwng 10.30am a 3.30pm. Yn sesiwn y bore, bydd E. Wyn James yn olrhain yr hyn a ddigwyddodd yn Aberystwyth yn y cyfnod hwnnw, ac yna bydd Hywel Meredydd

Davies yn troi ein golygon at Fangor. Wedyn, yn sesiwn y prynhawn, bydd nifer o bobl a oedd yn fyfyrwyr yn y colegau hynny yn y cyfnod dan sylw yn rhannu eu hatgofion a'u tystiolaeth, gan gynnwys Gwenan Job, Arfon Jones, Dafydd Picton Jones, Sylvia Prys Jones, Densil Morgan, Catrin Roberts, Bryn Williams ac Arfon Wyn. Y cadeirydd fydd John Treharne.

Bydd croeso cynnes i bawb fynychu'r gynhadledd honno, ac nid dim ond y rhai a oedd yn fyfyrwyr yn y 1970au! Ni chodir tâl, ond disgwylir i bawb wneud eu trefniadau cinio eu hunain. Bydd cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gael. Am fanylion pellach, cysylltwch â hywel@meredydd.net neu gwyn.rhydderch@ebcpcw.cymru.

Dewch i gael eich ysbrydoli a'ch herio ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Dewch i gael eich ysbrydoli, wrth glywed am Dduw ar waith yng Nghymru, yn y 1970au.

BENDITH Y SAITHDEGAU!

21 Hydref
10.30yb - 3.30yp

Dewch â chinio.
Bydd paneidiau ar gael.

Eglwys Efengylaidd
Y Drenewydd
(SY16 1HL)

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: hywel@meredydd.net neu gwyn.rhydderch@ebcpcw.cymru



Cyhoeddi rhestr enillwyr Medalau Gee ar gyfer 2023

Mae'n bleser gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru gyhoeddi bod 11 o fedalau yn cael eu cyflwyno eleni – deg i ffyddloniaid yr ysgolion Sul, ac un i Sharon Rees, a dreuliodd flynyddoedd yn gweithio ym Mhen-rhys, ac sydd bellach yn ymbaratoi i ymddeol. Diolchwn iddi am ei chyfraniad nodedig yn y fro arbennig hon a dymunwn yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Bydd y medalau hyn yn cael eu cyflwyno mewn gwasanaethau yn lleol dros yr wythnosau nesaf. Cofiwch fod modd enwebu eto ar gyfer 2024 – mae angen i bob cais ddod i law erbyn 30 Mehefin 2024.

Cyflwynir y medalau eleni i'r canlynol:

David Gwyn Howell Jones – Hermon, Cynwyl Elfed
Haulwen Lewis – Tabernacl, Pencader
Jane Heulwen Mair Jones – Rhydlywd, Lledrod
Gwynfor Parry – Siloam, Talwrn, Llangefni
Eleri Ames – Capel y Groes, y Groes, Dinbych
Margaret Elizabeth Davies – Capel y Groes, y Groes, Dinbych
Robert Glyn Davies – Capel y Groes, y Groes, Dinbych
Nest Davies – Yr Allt-wen, Pontardawe
Hannah Rhydwen Jones – Yr Allt-wen, Pontardawe
Eiry Hannah Shopland – Yr Allt-wen, Pontardawe
Sharon Rees – Pen-rhys a'r Allt-wen, Pontardawe

Aled Davies
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cynhelir cyfarfod gwobrwyo
Medalwyr De Cymru ar
Bnawn Sadwrn Medi 30
yng Nghapel yr Alltwn, Pontardawe
am 1.30 y pnawn
Lluniaeth ysgafn i ddilyn
Croeso cynnes i bawb
(Cynhelir cyfarfod yn y Gogledd, manylion i ddilyn)

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrnodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 1

Gweddio'n gyson Mathew 6:5-13 | 1 Hydref



heb ofyn am arweiniad y Tad Nefol wrth gychwyn ar y gwaith. Ni ellir disgwyl bendith Duw ar ein hymdrechion heb ein bod yn cyflwyno'r gweithgaredd a'n cyflwyno ein hunain yn gyntaf.

Deallwn fod nifer o eglwysi yng Nghymru wedi hepgor oedfaon defosiynol. Bydd aelodau'r eglwysi yn tybied na allant weddio heb gael eu hyfforddi i wneud. Ceir digon o ddeunyddiau mewn llyfrau pwrpasol bellach, a diolch i'r Cyngor Ysgolion Sul am sicrhau deunyddiau amrywiol eu pwyslais. Os digwydd bod eglwysi yn brin o ddoniau cyhoeddus, onid dyna gyfle i eglwysi mewn pentref neu dref ddod ynghyd naill ai yn y capel neu ar aelwyd teulu? Nid oes cyfyngiad nac amod ar hyd y cyfarfod, boed yn hanner awr neu'n awr a hanner. Nid oes rheol chwaith am hyd gweddio, ond ei bod yn ddiwyll a naturiol.

Gweddio

Diolch i ti, Nefol Dad, am ganiatáu i ni gael dod ger dy fron a rhannu mewn sgwrs â thi. Diolch am ein cynorthwyo i fod yn dy gwmni ac am y fendith a deimlwn wrth wneud hynny. Mae dy gwmni di fel gwres i berson rhyllid a diod i berson sychedig, yn fwyd i'r sawl sy'n llwgu a chyfeiriad i'r bobl sy'n crwydro'n ddiabwrpas. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

1. A oes perygl i Gristnogion ofyn i Dduw fendithio cynlluniau aelodau'r eglwys, yn hytrach na cheisio meddwl Duw ar gyfer gweithgareddau'r eglwys?
2. Beth yw eich ymateb i'r cwpld sy'n dweud: 'Llawer gwell na gweddio faith / yw gweddio fer mewn dillad gwaith'?
3. I ba raddau y bydd gweithgareddau eglwys/ cyfundeb/ enwad yn codi o daerineb defosiwn cwrdd gweddio neu gynhadledd?
4. Pa fath o bennawd ar raglen newyddion neu mewn papur dyddiol sy'n peri eich bod yn offrymu gair o weddio yn y fan a'r lle? Beth fyddai amcan y weddio honno?
5. Wrth glywed am unrhyw weithred ysgeler, fyddwch chi'n gweddio dros y troseddwr neu'r drwgweithredwr â'r un taerineb â'r dioddefwr yn yr hanes?

Gweddio

Sanctiaidd Dduw, plygwn yn wylaidd ac yn ostyngedig mewn gweddio a gofyn i ti ein tywys wrth i ni ddod ger dy fron. Bydd yn drugarog gyda ni wrth i ni gropian i'th gwmni ac ystyried y myfyrdod hwn. 'Arglwydd, dysg i ni weddio, priod waith pob duwiol yw.' Amen.

Darlleniad: Mathew 6: 5-13

Cyflwyniad

Un o nodweddion bywyd Iesu yn yr Efengylau oedd ei fod yn gweddio'n gyson. Mae'n rhaid bod hyn wedi creu argraff gref ar y disgyblion gan iddynt ofyn iddo eu dysgu i weddio. Tybiwn yn sicr fod y werin Iddewig yn gyfarwydd â'r hyn a ddigwyddai yn y synagogau, a byddai'r defosiwn yn gyfarwydd iddynt. Byddent yn siŵr o fod yn medru adrodd darnau helaeth o'r defosiwn Iddewig ar eu cof, yn arbennig y Salmau, a phrin bod angen i neb eu dysgu i ddilyn hynny. Eto, roedd rhywbeth yng ngweddio Iesu




oedd yn wahanol ac yn peri iddynt ofyn am help i weddio fel y gwnâi ef.

Ceir cyfeiriadau at weddio Abraham, Jacob a Samson, Dafydd a Daniel, a llu o gymeriadau amlwg eraill yr Hen Destament. Ceir sawl cyfeiriad yn llythyron Paul at weddio, ac anogai'r apostol ei gyfeillion i weddio yn ddi-baid. Ceir gweddio preifat, personol, teuluol a chyhoeddus, a gall y gweddio hyn gynnwys sawl gwedd, megis addoliad, cyffes, diolchgarwch, eiriolaeth ac ymgysgriad. Yn y gyfres hon o fyfyrnodau rhoddir gweddio fel rhan ymarferol o fywyd yr eglwys gan ei fod yn rhan sylfaenol ac anhepgorol o fywyd y credadun a'r gynulleidfa. Beth bynnag arall a wna eglwys wrth fyw'r ffydd, bydd angen ymarfer gweddio fel hanfod ein byw. Fel anadlu'r corff, bydd yr enaid yn gweddio'n reddfodol.

Myfyrdod

Yn ystod y gyfres hon o fyfyrnodau cyfeirir at yr amrywiol agweddau o fyw'r ffydd, ond prin bod modd gwneud dim



S4C

Sul, 1 Hydref, am 8yh

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Bydd Nia Roberts ar grwydr ym mro Eisteddfod Genedlaethol 2024, Rhondda Cynon Taf, yn rhannu hanesion difyr am yr ardal a'r cymoedd cyfagos. Ymysg ei gwesteion bydd Siân Thomas, Christine James, Dr Lyn Davies a Gwyn Morgan. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi'r Eisteddfod yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. A chawn berfformiadau gan Gôr Tôn Teg a Chôr Godre'r Garth

BBC radio cymru

Sul, 1 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp

Caniadaeth y Cysegr

Cyfieithiadau – Elen Ifan yn trafod emynau sydd wedi'u cyfieithu

Sul, 1 Hydref, am 12yp

Oedfa dan ofal Euron Hughes, Dolgellau

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Adam Wysg (c 1352–1430)

ADAM USK'S EPITAPH

FROM A RUBBING BY WILFRED J. HEMP, F.S.A.



TRANSCRIPTION

Nole clode yi ethrode yar lleyn aduocade llawnhade llundein Abarnour bede breynt apibe ty nev aro ty hauabe Seliff funnoeir finna fe adam vke eva l kufke Deke kummode doctor kymmen llna loe l llawn o leue

TRANSLITERATION

Nól clod i veddrod iar vein, advocad llawnhad Llundein A barnwr byd breint arab – ty nef a vo [i] ti, ha vab ! Selyf swnnwyr, synna, sy, Adam Wsk, yna yn kwsky, Dec kwmmwd doctor kymmen – llyna le yn llawn o lén !

[Y Cymmrodor, vol.xcxi.]

[To face p.134.]

Heddiw mae Brynbuga yn dref fechan ddymunol yn enwog am ei blodau ond mae wedi ei lleoli mewn ardal a fu'n ffin gythryblus o gyfnod y Rhufeiniaid, y Normaniaid, Arglwyddi'r Mers – a rhoi'r enw hanesyddol i'r Gororau – a Gwrthryfel Owain Glyndŵr.

Ym Mrynbuga mae eglwys y Santes Fair. Sefydlwyd Lleiandy Urdd Benedict yma dan nawdd Richard de Clare, aelod o un o deuluoedd pwerus y Mers, ychydig cyn ei farwolaeth yn 1176. Parodd y Priordy a'r Lleiandy yma tan ddiddymiad y mynachlogydd dan Harri'r VIII yn 1536.

Felly, eglwys fechan i'r lleianod oedd yma'n wreiddiol ond ar ôl diddymiad y mynachlogydd fe'i hehangwyd yn eglwys y plwyf. Ymhlith trysorau'r eglwys mae hen goffor ganol oesol ac organ hardd a ddaeth o eglwys Llandaf yn 1900.

Mae yma hefyd feddagraff hynod, sef beddagraff gŵr o'r enw Adam Wsg/Wysg, hysbys yn Saesneg fel Adam of Usk. Bu farw yn 1430 a'i gladdu yma ac mae arysgrifen bres ei feddagraff yma o hyd, ond ni wyddys union leoliad y beddrod ei hun.

Pwy oedd Adam Wysg?

Cofir amdano heddiw yn bennaf fel awdur *Cronicl* yn cofnodi hanes y cyfnod 1377–1421. Cyfnod sydd yn cynnwys Gwrthryfel Glyndŵr a helyntion y goron yn nheyrnasiad Richard II a Harri'r IV. Yn Lladin yr ysgrifennwyd y *Cronicl* ac ystyrir ei gynnwys yn ffynhonnell bwysig gan haneswyr.

Cymro Cymraeg oedd Adam a thebyg bod ei deulu â chysylltiad â haen uchaf y drefn Normanaidd, sef teulu de Mortimer, Iarll y Mers. Roedd Adam yn amlwg yn alluog a thrwy nawdd teulu Mortimer, fe'i galluogwyd i astudio'r gyfraith yn Rhydychen lle enillodd ddoethuriaeth a'i ddynodi yn arbenigwr mewn Cyfraith Eglwysig.

Wedi cyfnod yn athro cyfraith yn Rhydychen bu'n Llys Archesgob

Caergaint o 1390–97 ac aeth i'r Senedd yn Llundain yn 1397. Daeth yn rhan o'r ymrafael yn Lloegr yn erbyn Richard II ac yn aelod o gomisiwn a sefydlwyd i ddod ag achos yn erbyn y brenin i'w ddisodli. Felly y bu a dilynwyd Richard gan Harri'r IV.

Enillodd Adam ffafr Harri'r IV a rhoddwyd sawl bywoliaeth eglwysig iddo yng Nghymru (ym Mangor a Cheredigion). Ond bu Adam mewn rhyw helynt yn 1400 ac o ganlyniad colodd ffafr Harri'r IV ac aeth i Rufain yn 1402. Bu yn Rhufain am gyfnod o ryw 7 mlynedd cyn iddo gael pardwn brenhinol a dychwelyd i Gymru.

Caplan i'r Pab

Yn Rhufain gwnaeth argraff ar y Pab, Boniface IX a chafodd ei apwyntio yn gaplan i'r Pab: 'I was raised to ... the dignity of papal chaplain ... and judge to city and world, being invested by the pope himself with the ensigns of office' meddai yn ei Gronicl (cyfieithiad Saesneg: *The Chronicle of Adam of Usk 1377–1421*, Edward Maunde Thompson ed. 1904 t.113). Cafodd ei enwebu i esgobaeth Henffordd gan y Pab hefyd ond gwrthwynebwyd hynny gan Harri'r IV.

Yn 1408 dychwelodd Adam i Gymru ond ni ddaeth i unrhyw amlygrwydd wedyn. Yn 1423 roedd yn offeiriad yn

Llangybi heb fod ymhell o Frynbuga. Bu farw yn 1430 ac fe'i claddwyd yn yr eglwys hon.

Beth sydd o ddiddordeb arbennig i ni yw bod arysgrif ei feddagraff yn Gymraeg. Dichon mai dyma'r beddagraff Gymraeg cynharaf sydd ar gadw. Mae'n hynod o ddiddorol felly ei bod wedi goresi mewn rhan o Gymru y mae'r iaith wedi llwyr ddiplannu ohoni ac mae yn dystiolaeth brin o barhad y Gymraeg yn yr ardal hon a fu am ganrifoedd dan rym grymoedd estron y Gororau.

John Morris-Jones

Ni fu dehongli'r arysgrif heb ei broblemau a diolch i lafur yr ysgolhaig mawr hwnnw – John Morris-Jones (JMJ) am ei dehongli inni. (Adam Usk's Epitaph. *Y Cymmrodor* xxxi,112–32)

Mae'r beddagraff ar fesur cywydd ac yn cynnwys pedwar cwpled, pob llinell o saith sillaf a phob cwpled yn odli. Bu'r arysgrif yn hynod o anodd ei dehongli oherwydd ym marn JMJ nid oedd yr arysgrifwr yn medru Cymraeg a defnyddiai orgraff Saesneg Canol! Felly, gan na ddeallai'r iaith, mae nifer o gamddarllenadau a gwallau anochel yn britho'r testun. O ganlyniad bu raid i JMJ nid yn unig 'gywiro'r' testun ond ei adfer mewn rhai manau. Yn dilyn rwyf yn rhoi y testun diwygiedig a gynigiodd JMJ a gosod ochr yn ochr ag ef ddiweddiariad yn seiliedig ar nodiadau JMJ. Yn anffodus ni lunniodd JMJ fersiwn gyflawn Gymraeg ei hun; dyma'r ddau fersiwn a gwelwch yn y drydedd linell gyfeiriad at y teitl *judex orbis* (barnwr byd) a roddwyd gan y Pab i Adam.

Er bod JMJ yn ddeifiol o feirniadol o ddawn barddonol y sawl a lunniodd yr arysgrif wreiddiol mae'n nodi bod adllais yn y llinell olaf un o linell o farwnad Dafydd ap Gwilym i Gruffudd Grug: 'Llyna le yn llawn o lén.' Felly roedd rhyw Gymro yn ardal Brynbuga yn y bymthegfed ganrif yn gyfarwydd â gwaith cywyddwr enwocaf ein llenyddiaeth!

Glyn Jones

ARYSGRIFEN BEDDARGRAFF ADAM WYSG

1. Datrysiaid John Morris Jones o'r arysgrifiad pres gwreiddiol

Nól clod i veddrod iar vein
Advocad llawnhad llundein
A barnwr byd breint arab
Ty nev a vo [i] ti, ha vab!
Selyf swnnwyr, synna, sy,
Adam Wsk, yna yn kwsky,
Dec kwmmwd doctor kymmen-
Llyna le yn llawn o lén!

2. Diweddiariad yn seiliedig ar nodiadau a dehongliad John Morris Jones sydd yn Saesneg (ac yn Lladin)

Wedi bri, i'r bedd o'r faine,
Adfocâd mwyaf dawnus Llundain
A barnwr byd, trwy fraint graslon,
Trigfan nefol fyddo i ti, O ŵr!
Wele Solomon ddoeth,
Adam Wsg sydd yma'n cysgu.
Doethur galluog, gwlad eang.
Dyma le yn llawn dysg!

Barn Annibynnol

Taith anhygoel

Rhyw fis yn ôl roeddwn i a'r hogia (Richard, y gŵr, Gwydion a Llywelyn – y meibion) ar daith anhygoel drwy gyfandir Ewrop. Roedd fy rhieni; Rhian a Ron yn dathlu priodas aur yn ystod mis Awst ac felly roedd yn gyfle i'r teulu estynedig fwynhau gwyliau gyda'n gilydd. Croatia fyddai lleoliad y gwyliau a phenderfynodd rhan fwyaf o'r teulu hedfan a chyrraedd mewn ychydig oriau. Ond dewis gyrru wnaethon ni – a dyna daith! O Gymru fach, drwy Loegr ac i Ffrainc ar y dydd cyntaf. Yna ymlaen i'r Almaen a chyrraedd Awstria erbyn y trydydd dydd. Lubljana – prifddinas Slofenia oedd yn galw nesaf a dyna noson braf a gafwyd yn y ddinas fechan hyfryd yma. Roedd ein taith i Croatia bron ar ben wrth i ni yrru yr ychydig filltiroedd o Lubljana i ddinas Pula yng Nghroatia. Braf oedd cael cyfle i wagio'r cesys go iawn ac ymlacio a dathlu gyda'r teulu. Ymhen wythnos wrth i bawb arall ffarwelio i ddal

yr awyren adra, roedden ni yn cychwyn ar ein taith o Croatia i Verona yn yr Eidal. Yna ymlaen i dde Ffrainc am ddeuddydd yn haul Provence cyn cychwyn ar ein taith drwy Ffrainc i ddal y llong yn ôl i ynysoedd Prydain a Chymru fach.

Cadeirlan Verona

Mae'n anodd meddwl ein bod wedi cael profi diwylliannau a chwmni gymaint o wledydd a phobl amrywiol. Ar wahân i'r wythnos gyda'r teulu estynedig yng Nghroatia – yr uchafbwynt oedd y tridiau gawson ni yn Verona. Byddaf wastad yn ceisio mynd i addoliad pan fyddaf mewn tref neu wlad wahanol. Roedd addoliad yng nghadeirlan Verona am hanner dydd; 'amser call iawn i bobl ar eu gwyliau' meddyliwn.

Roedd yr eglwys yn llawn o ymwelwyr, wrth gwrs, ond cyn i'r gwasanaeth gychwyn roedd yn rhaid i bawb adael ar wahân i'r rhai oedd am addoli. Tydw i ddim yn deall Eidaleg o gwbl (heblaw am ambell air 'cerddorol!) ac roedd taflen trefn gwasanaeth i bawb mewn Eidaleg. Ond roeddwn yn gallu deall y cyfeiriadau Beiblaidd ac yn gallu mynd i fy ffôn i ddilyn y darlenniadau ar beibl.net ac



roedd trefn y gwasanaeth yn gyfarwydd am eu bod yn dilyn y liturgi – trefn debyg iawn i wasanaeth eglwysig. Ac mae Alelwia yr un peth ym mhob iaith a thraddodiad! Roeddwn i'n gwybod pan roeddem yn cydweddio ac roedd yn brofiad ysbrydol iawn. Yna, daeth yn amser am y bregeth. A do, cafwyd pregeth chwarter awr. Roedd y bregeth, fel y byddech yn disgwyl i gyd mewn Eidaleg – ond roedd yn brofiad arbennig iawn gwrando ar yr iaith – sydd fel y gwyddoch yn hardd iawn i wrando arni. Weithiau roedd yr offeiriad fel petai yn canu.

'Pwy meddech chi ydw i?'

Roedd yn pregethu ar y darlenniad ar gyfer y Sul oedd o Efengyl Mathew, pennod 16 – hanes Iesu a'r disgyblion yng Nghesarea Philipi a datganiad o fydd Pedr mai Iesu oedd y Meseia. Wrth wrando ar y bregeth, byddwn bob hyn a hyn yn deall ambell air neu'n meddwl mod i'n deall yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Ond ar un adeg daeth yr offeiriad reit i'r blaen atom fel cynulleidfa a siarad efo ni'n hollol uniongyrchol fel petai Iesu ei hun yn gofyn i ni; 'pwy meddech chi ydw i?' Roedd yn ailadrodd yr un frawddeg ac er nad ydw i'n siarad Eidaleg, dwi'n siŵr ei fod yn gofyn i ni; pwy meddech chi ydw i? Am weddill y bregeth, cefais fy hun yn myfyrio ar y cwestiwn yma ofynnodd Iesu i'w ddisgyblion.

Cariad

Fel Pedr, roeddwn yn myfyrio ar Iesu yn Feseia ac yn Arglwydd – yn Greawdwr nerthol, ond hefyd mor agos atom. Ond gan fy mod yn ninas Romeo a Juliet – dinas cariad cefais fy hun hefyd yn myfyrio ar gariad Crist a'r hyn mae hynny yn ei olygu. Ac yn sain iaith ddieithr wrth addoli mewn traddodiad gwahanol i'r arfer, cefais fy atgoffa fod Cariad Crist yn dod â phobl at ei gilydd, pwy bynnag ydan ni. A pan fyddwn yn codi muriau ar sail enwad neu ddehongliad gwahanol o'n ffydd, rydan ni'n methu yn ein galwad i fod yn ffyddlon i Grist a chyflwyno Crist i'n cymdeithas a'n byd heddiw.

Mererid Mair Williams

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

CERDDI PANDEMIG

Llŷr Gwyn Lewis

Aros

Noswyl Nadolig 2020

Llund llaw ohonom
mewn Teml Heddwch oeraidd, eang
wedi'n gwasgaru'n rhesi cyson
ac yn canu i'n mygydau,
y ddinas yn ddistaw;
a hyd yn oed y ceir tu allan yn cadw
pellter cymdeithasol.

Rhwng y garol fud a'r bregeth fer
dydi'm ots gen i addef
imi grio am eiliad, oherwydd
bod babis yn dal i gael eu geni
bod mynd ar yr un hen garolau o hyd
a geiriau'n gallu magu mwy o ystyr;
bod 'na galan i'w gael
ar ben draw hyn i gyd

A dyma fi'n loetran tu allan cyn troi am adra
fel y plentyn driodd aros yn effro i'r eiliad
rhwyng pan oedd Santa heb alw, a'i fod
eisoes wedi bod.

Codi

Pasg 2021

Down adra fel taem yn mynd ffwrdd, ar ôl
croeshoeliad o flwyddyn: coron
ddrain, hunan-fflangell, finegr sur ar wefl.

Pa newydd i'r gwanwyn ond rhifau?
Nid ffrwydrad o fywyd, ond mymryn
llai o farw: digon i balu mlaen.

Am bythefnos o haul, atgyfodwn,
cawn awel deg i hyrddio'r Gymraeg, am
unwaith,
yn ei blaen hyd y llwybrau defaid;

cawn draethau agored, amddifad o gyrff
lle mae godre gwisg y môr
yn las-Beibil-Plant, yn Fadlen ar gyrraedd
gardd:

ein gwlad, am unwaith, mor wag
ag wy siocled, neu fedd
a'r garreg wedi'i threulio mond i ni,

i ni gael chwarae ynddi
a choelio am chydig mewn atgyfodiad.

Gwyro

wrth ddod allan o'r pandemig

Gyda bod y lonydd
yn fwy tawel a llonydd
dyma droi oddi ar y lôn bost
i weld ffynnon Gwenffrewi
oedd wedi bod ar ein rhestr cyhyd.

Medd rhai na fydd pethau byth yr un
pan aiff hyn i gyd heibio:
sgubwn ludw'r marchnadoedd
i graciau'r tir lle cerddwn, lle cyfarchwn
ein gilydd, a'r awyrennau'n rhydu.

Nid newid wnawn ni wir, mond dod yn ôl
yn bagan at y pethau hen, elfennol:
at wres haul, at flagur, ac at ddŵr
berwedig o oer. O lechen i lechen,
neu o'n llyfrau'n ôl i ddarllen braille y sêr
â'n bysedd dall a glân. At darddiad pethau,
down 'nôl i ymdrochi yn yr hyn
sy'n argoeli'n mendio, ond i ni eu choelio

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

LLAIS O'N DOE

Myfyrdod gan y diweddar Parchedig Huw Ethall 1917-2013

Rhyfeddu 'rwyf, O! Dduw,
Dy ddyfod yn y cnauld,
Rhyfeddod neb ddim diwedd yw
Fod Iesu imi'n Frawd.

(283 Caneuon Ffydd)

Dweud ei brofiad a wna Dyfnallt yma
ac nid traethu barn. I lawer heddiw codi
cwestiynau a chodi amheuan a wna
Cristnogaeth, ond rhyfeddu a wna
Dyfnallt wrth feddwl am Iesu'n dod i'r
byd. Fel Eiseia gynt, dywed, 'A gelwir
ei enw Ef, Rhyfeddol ...'

'Rhyfeddod heb ddim diwedd yw,'
meddai Dyfnallt am yr Ymgnawdoliad.
Yn anffodus yn ein dyddiau ni, collodd
llawer i ryfeddod ei rym mewn amser
byr. Y tro cyntaf y gwelsom lun o ddyd
yn cerdded ar y lleuad 'roeddem yn
syllu mewn rhyfeddod. A fuasai'r un
gamp yn ennyn yr un rhyfeddod
heddiw? Mynn Dyfnallt mai
'rhyfeddod heb ddim diwedd yw'
dyfodiad Iesu i'r plith. Ac oni chanodd
Emrys am Ei farwolaeth? 'Rhyfeddod
heb heneiddio mwy/Fydd hanes mawr
dy farwol glwy...' Mae heb ddiwedd a
heb heneiddio yn gyfartal eu gwerth. A
Phantycelyn wedyn yn dweud,
'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef/Hwn
yw y mwyaf un/Gweld yr anfeidrol
ddwyfol Fod/Yn gwisgo natur dyn.'

Sylwer beth yw rhyfeddod i
Dyfnallt, ai 'Fod Iesu'n Fab Duw',
'Fod Iesu'n Arglwydd', 'Fod Iesu'n
Feseia'? Na – ond 'Fod Iesu imi
frawd'. Ni allasai'r berthynas fod yn
agosach na hynny. Nid Gwardwr pell
yw Iesu ond Un agos, agos. Gweddïwn,
ymhlith yr holl atyniadau ffug o'n
cwmpas, y cawn ymdeimlo â'r
Rhyfeddod agos a fydd yn troi pob ?
yn !.

**Enwadau? Er crasu pob
torth mewn ffwrn wahanol,
tylinwyd bob un o'r un toes.**

MADDEUANT

Eglwys Trillo Sant

Yr eglwys leiaf
Sy'n ein codi'n ôl.
Lle i fod ar eich pen eich hun
i ollwng y baich i gyd,
hyd nes daw pererinion eraill at y ddôr.

Cyffwrdd eto ag Amser Duw
A'i guriadau anarferol ac afresymol
sy'n gorfod ein gostwng i'n dysgu,
ein torri ni i'n hadfer,
er mwyn i ni fedru mynd adref ar hyd
ffordd arall.

Y Gras sydd mor amheuthun
a ninnau mor annheilwng.

Y llwybr bach at yr eglwys leiaf,
lle cawn faddeuant am i ni wyro,
am i ni fethu â throi'r foch arall,
am i ni beidio â dysgu fod caru yn well na
dal dig,
a chymod yn pontio'n well na dal i
gleisio.

Am y Gras sy'n gadael i ni weld heulwen
ar donnau eto
O'n gwaeledd.
Pan ddaw geiriau'r adnodau a'r emynau
yn brofiad
i ni,
pan ddsygnw i beidio â bod mor
llawdrwm
arnom ni ein hunain,
ar yr adegau pan sylweddolwn
nad ydym wedi gwneud yn ôl
yn well nag a wnaethpwyd yn frwnt i ni.

Ar yr adegau pan yr ydym mor ddynol,
y tu hwnt i eiriau,
daw'r chwa sy'n chwipio'r tonnau
i gipio'r cyfan ymaith,

yr awel nerthol sy'n sychu'n dagrau.
Ar yr adegau pan nad ydym deilwng
rhaid gadael yma gargo ein heuogrwydd
a dechrau eto i ddsygu
bod mwy o her ar y gorwel.

Ildiwn i gefnfor ei Gariad.

Aled Lewis Evans



Emyn 'Gofal Duw'

Ti sy'n chwilio a'm hadnabod,
Ti a wŷr fy meddwl i,
Ni ddaw gair oddi ar fy nhafod
Heb ei ddirnad gennyf ti.
Rho im ddeall, rho'r amgyffred
Yn fy nghalon, yn fy nghân,
Mai dy law osodaist drosof
O'r tu ôl ac o'r tu bla'n.

I ble'r af oddi wrth dy ysbryd
Ac ymhle caf ffoi o'th wŷydd?
Os ar adain aur y wawrddydd
Af, dros donnau'r môr yn rhwydd,
Neu i Annwn draw i guddio,
Yno byddi'n dal fy llaw;
Ni bydd nos yn cau amdanaf,
Mae d'oleuni'n ddi-ben-draw.

Ti a greodd f'ymysgareodd,
Ti a blethodd bopeth cudd,
Yn dy lyfr y cofnodwyd
Hyd fy mywyd a bob dydd;
Er dy luos ddwfn feddylliau
Fel gronynnau'r tywod mân,
Para rwyf i gynnig imi
Dalen wen a chalon lân.

Gwae im lynu wrth d'elynyon,
Tynn fi'n rhydd o'u gafaed cas,
Gwna fi'n ddewr i fod yn gadarn
Yn dy gariad, drwy dy ras.
Chwilia fi, fel caf f'adnabod,
Profa fi, a gweld fy loes;
Dangos im, os wyf ar groesffordd,
Sut mae dilyn grym y Groes.

Sian Meinir
(seiliedig ar Salm 139)